Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant – (SEWAS)** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio Ystwyth / Mamhilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Rhif Cyfeirnod/Cyfeirnod Swydd:** | **BG09111** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8 (£38,223 - £42,403 pro rata/y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Parhaol - Llawnamser** |

**Crynodeb Swydd**

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) yn dymuno penodi Gweithiwr Cymdeithasol o fewn yr adran Gwasanaethau Plant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu cymorth mabwysiadu i bawb y mae mabwysiadu wedi effeithio arnynt a chyfrannu at ddatblygu a darparu'r gwasanaeth mabwysiadu, yn unol â deddfwriaeth mabwysiadu, rheoliadau, canllawiau, safonau cenedlaethol a pholisïau adrannol.

**Hysbyseb Lawn**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud amrywiaeth o waith cymorth mabwysiadu gan gynnwys:

- Asesu anghenion cymorth ôl-fabwysiadu teuluoedd sy’n mabwysiadu, datblygu a chydlynu cynlluniau cymorth a gwneud gwaith uniongyrchol gyda’r teuluoedd.
- Cefnogi a chynghori perthnasau biolegol trwy'r broses fabwysiadu.
- Cynorthwyo Oedolion sydd wedi’u mabwysiadu i weld eu cofnodion mabwysiadu.
- Mynychu a hwyluso grwpiau cymorth.

Mae'n hanfodol bod gennych Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster cyfatebol, eich bod wedi cofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol, a bod gennych wybodaeth am ddeddfwriaeth gyfredol. Rhaid i chi allu rheoli eich llwyth achosion eich hun, cadw cofnodion cywir, cydymffurfio â SEWSCB a gweithdrefnau ac arferion diogelu adrannol ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau sy'n briodol i'r raddfa a'r rôl.

Byddwch yn gyfrifol am eich datblygiad parhaus eich hun, byddwch yn gyfathrebwr rhagorol a bydd gennych sgiliau ysgrifennu adroddiadau da, sgiliau trafod a chyfryngu.

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol **https://socialcare.wales**

**Mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.**

**Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.**

**Dyddiad Cau:** **23.05.24**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **05.06.24**